OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1878

# Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002

**Diddymu a darpariaethau trosiannol**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymir drwy hyn erthygl 3 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) 1998(**1**) ac erthygl 3 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) 1999(**2**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(2) Nid yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Orchymyn 1995 gan y Gorchymyn hwn yn gymwys ar gyfer ceisiadau am ddyfarniad ynghylch a yw'n ofynnol i gael cymeradwyaeth o flaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol am leoliad ac ymddangosiad datblygiad a wnaed cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(**1**) O.S.1998/462.
(**2**) O.S.1999/1661.